# Cylchlythyr Dosbarth Ogwen – Ionawr 2023

Ysgol Tregarth

## Croeso'n ôl

Blwyddyn newydd dda a chroeso'n ôl i'r ail dymor ysgol. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r gwyliau Nadolig ac wedi cael cyfle i ymlacio.

## Thema

Fel y tymor diwethaf, yn lle dewis thema i'r dosbarth, byddem yn edrych ar gwestiwn mawr. Wedyn, yn ystod y tymor, bydd y dosbarth yn edrych ar themâu/cwestiynau bach o fewn y cwestiwn mawr. Y cwestiwn mawr tro 'ma yw 'Sut mae pethau'n gweithio?' Bydd y thema yma yn canolbwyntio ar yr ochr technoleg a gwyddoniaeth yn bennaf. Rhai o'r thema o fewn y cwestiwn bydd 'sut mae trydan yn gweithio?' 'Sut mae cysawd yr haul yn gweithio?' 'Sut mae disgyrchiant yn gweithio?' 'Sut mae pont godi yn gweithio?' a llawer mwy.

Bydd cynllun llais y rhieni yn cael ei rannu allan i chi a'ch plentyn i lenwi gyda syniadau am dasgau/cwestiynau a gweithgareddau i wneud yn yr ysgol. Gwerthfawrogwn cymaint o ymatebion a phosib. Yn ystod y tymor, bydd cyfleoedd i'r plant ddangos pa syniadau sydd wedi cael ei ddefnyddio yn yr ysgol. Os oes gennych unrhyw gysylltiadau sy'n gallu cynnig unrhyw beth i gyd-fynd a'r thema, plîs cofnodwch ar y cynllun.

## Darllen

Bydd sesiynau darllen yn parhau i'w cynnal yn ddyddiol. Bydd llawer o ymarferion darllen a deall yn cael eu hymarfer yn ystod y tymor er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant. Rydym yn annog i'r plant i ddarllen mor aml â phosib adref. Mae'r plant gyda chofnod darllen ar gael i fynd adref gyda nhw i gofnodi'r hyn maent yn ei ddarllen adref. Gall hynny fod yn bennod/ ychydig o dudalennau neu un llyfr cyfan.

Dyma linc ar gyfer ymarfer eu sgiliau darllen:

https://hwb.gov.wales/search?query=coeden+rhydychen
https://hwb.gov.wales/search?query=prosiect+x
https://www.j2e.com/j2blast
https://wordwall.net/



## Mathemateg

Bydd sgiliau rhifedd y plant yn cael ei dargedu bob dydd. Gofynnwn yn garedig i chi ymarfer sgiliau syml rhifedd fel cyfrif ymlaen/yn ôl mewn patrymau gwahanol, tablau, mathemateg pen, + - x a ÷ ac ymarfer dweud yr amser.

Bydd y plant yn cymhwyso sgiliau lluosi a rhannu, onglau, arian a siâp.

Dyma lincs ar gyfer ymarfer rhai sgiliau adref:

https://www.topmarks.co.uk/maths-games/hit-the-button
https://www.topmarks.co.uk/learning-to-count/place-value-basketball
https://wordwall.net/
https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/574488cd-2a17-4eac-a6ce-434280bbb51d/cy?sort=recent&catalogs=1d058d90-af42-4ce4-bbf2-ba794a95aa55&categories=0fe3d8a8-74ba-4292-b4fd-24cd2c8faaa9&strict=1
https://www.j2e.com/j2blast

## Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei rannu allan bob hanner tymor. Bydd 3 neu 4 o dasgau/prosiectau gwahanol ar gael i'r plant ddewis i gwblhau (posib cwblhau mwy nag un dasg) yn ystod y tymor. Bydd gwaith cartref y tymor yma yn cael ei rannu wythnos nesaf a'i ddychwelyd yn ôl rhiw dro yn ystod y tymor.

# Cylchlythyr Dosbarth Ogwen – Ionawr 2023

## Strwythur staffio' dosbarth

** Mae ychydig o newid yn amserlen y dosbarth y flwyddyn yma a newidiadau pellach yn fis Chwefror. Gwelir isod:

Amserlen wythnosol - Ionawr:

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Sesiwn 1 | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Thema (Mr. Roberts) |
| Session 2 | Nofio (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Thema (Mr. Roberts) |
| Session 3 | Addysg Grefyddol | Thema (Mr. Roberts) | Addysg Gorfforol (Mr. Roberts) Celfyddydau Mynegiannol (Miss Griffith) | Thema (Mr. Roberts) | Thema (Mr. Roberts) |

Amserlen wythnosol - Chwefror:

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Sesiwn 1 | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Maths / Darllen (Mr.Roberts) | Thema (Mr. Roberts) |
| Session 2 | Nofio (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Iaith (Mr. Roberts) | Thema (Mr. Roberts) |
| Session 3 | Addysg Grefyddol | Thema (Mr. Roberts) | Cymhwysedd digidol (Mr. Roberts) Celfyddydau Mynegiannol (Miss Griffith) | Addysg Gorfforol (Byw'n Iach) | Thema (Mr. Roberts) |

Y newid mwyaf yn fis Chwefror yw'r sesiwn ymarfer corff. Bydd ymarfer corff yn digwydd ar ddydd Iau yn hytrach na dydd Mercher. Rydym wedi trefnu bod darparwyr allanol yn dod i'r ysgol i wneud ymarfer corff gyda'r plant am gyfnod o 15 wythnos fel rhan o gynllun gwella ffitrwydd. Bydd y cynllun yn cychwyn ar yr ail wythnos o Chwefror (9.2.2023). Bydd y plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol fel martial arts, hoci, dosbarth ffitrwydd, dawns, sesiynau yn y ganolfan hamdden leol a gymaint mwy.

## Seesaw

Er mwyn sicrhau cyfathrebiad cyson gyda chi rhieni / gwarcheidwad bydd 'Seesaw' yn parhau fel platfform digidol i rannu newyddion, i dderbyn a gyrru negeseuon yn ogystal â rhannu profiadau a chynnydd disgyblion.
Gofynnwn yn garedig i chwi ffonio'r ysgol yn uniongyrchol nid drwy Seesaw ynglŷn â phresenoldeb , apwyntiadau , salwch, pryder.

Seesaw

## General Reminders

**Amser cychwyn –** Mae angen i bob plentyn gyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn 8:50yb.

**Amser gorffen –** Mae disgyblion CA2 yn gorffen am 3:30yp.

**Ffrwyth –** Caniateir i blant ddod a diod a ffrwyth i'r ysgol i fwyta yn ystod amser egwyl

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad

Mr Carwyn Roberts